Michelangelo: 1475–1564

Peintio'r nenfwd

Dyfalbarhad / parchu crefft

Ydych chi wedi cael eich enwi ar ôl rhywun? Ar ôl taid neu nain, modryb neu ewythr, efallai. Neu, efallai eich bod wedi cael eich enwi ar ôl lle arbennig. Dyma i chi stori am fachgen a gafodd ei enwi ar ôl angel. Enw'r angel oedd Michael neu Mihangel yn Gymraeg. Yr enw Eidalaidd oedd Michelangelo. A dyma'r enw a roddwyd ar y bachgen a aned ar ddydd Sul.

Pan ddechreuodd Michelangelo yn yr ysgol, doedd o ddim yn hoff iawn o wneud symiau. Roedd o'n cael anhawster mawr yn y gwersi a byddai'r athro yn dwrdio'n aml iawn. Ond roedd wrth ei fodd yn gwneud lluniau. Byddai'n gwneud lluniau bob adeg o'r dydd – yn yr ysgol, ar ôl mynd adref a hyd yn oed yng nghanol y nos. Droeon byddai'n codi o'i wely i wneud lluniau. Roedd ei dad yn flin iawn efo Michelangelo.

"Mae'n rhaid i ti wneud yn well yn yr ysgol," meddai'r tad. "Yn ôl yr athro, dwyt ti ddim yn gwneud dy orau, yn enwedig mewn symiau."

Ond dal i gasáu gwneud symiau roedd y bachgen. Pan oedd yn 13 oed gadawodd yr ysgol ac aeth i weithio gydag arlunydd oedd yn byw yn yr ardal. Rhoddodd yr arlunydd dasg i Michelangelo i gopïo llun o waith yr arlunydd ei hun. Yn wir, roedd y copi mor dda fel nad oedd modd gwybod y gwahaniaeth rhwng y ddau lun.

Yn y ddinas roedd yna ddarn mawr o farmor y tu allan i'r eglwys gadeiriol. Penderfynodd Michelangelo wneud cerflun ohono. Gwnaeth gerflun o Dafydd y bugail. Roedd pawb yn y ddinas wedi dotio at ei waith. Daeth pobl o bell ac agos i weld y cerflun.

Daeth hanes y cerflun i glustiau'r Pab yn Rhufain. Gofynnodd y Pab iddo wneud darluniau ar nenfwd capel mawr. Roedd hyn yn golygu y byddai'n rhaid i Michelangelo orwedd ar ei gefn ar dop sgaffaldiau i wneud y gwaith. Roedd rhaid iddo beintio storïau o'r Beibl.

Bu wrthi'n ddiwyd am bedair blynedd a hanner. Roedd yn treulio'r rhan fwyaf o'i amser ar wastad ei gefn yn edrych i fyny ar y nenfwd. Fe orffennodd y gwaith ar y cyntaf o Dachwedd yn y

flwyddyn 1512. Bob blwyddyn bydd llawer iawn o bobl yn tyrru i weld gwaith Michelangelo ar nenfwd y capel yn Rhufain.

"Rhoddais ddawn i bob crefftwr i wneud y cyfan a orchmynnais..."

Exodus 31:6

Diolch, O Dduw,
am grefftwyr pob oes.
Pobl sydd wedi treulio'u bywyd
yn defnyddio'r doniau a roddaist iddyn nhw.
Helpa ni i sylweddoli
bod dawn pob crefftwr
yn bwysig,
beth bynnag fo'r ddawn honno
a'r gwaith hwnnw.
Helpa ni, Arglwydd, i barchu'r crefftwyr.
Amen.

Oes yna duedd heddiw i ddibrisio gwaith y crefftwr?
Ydi technoleg fodern wedi disodli gwaith y crefftwr?

Michelangelo: 1475-1564